# Agenda

## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Ebrill 2021

Amser: Time Not Specified

Lleoliad:

At: Cynghorwyr:

| Eitem | | Wardiau Dan Sylw |
|---|---|---|
| 1 | Question to the Cabinet Member for City Services: 2021/6- Fly Tipping in Lliswerry and Nash | |

**Cynghorydd A. Morris:**

Beth yw'r cynlluniau ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r lefelau hyll a chynyddol o dipio anghyfreithlon sy'n digwydd yn Llyswyry a Nash a pha gamau sy'n cael eu cymryd i'w atal?

**Dirprwy Arweinydd Roger Jeavons:**

Mae sbwriel a thipio anghyfreithlon yn cael ei achosi gan unigolion anghyfrifol ac mae'r canlyniad terfynol yn cael effaith negyddol sylweddol ar ein cymunedau ac yn faich ar adnoddau'r Cyngor.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cyngor wedi buddsoddi mewn teledu cylch cyfyng cudd sydd wedi'i osod mewn nifer o fannau lle mae problemau tipio. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 600% yn nifer y dirwyon a roddwyd. Gyda nifer o erlyniadau eraill yn yr arfaeth.

Er gwaethaf effaith Covid, ein hymateb cyfartalog i dipio anghyfreithlon yw 1.5 diwrnod, sy'n llai na'n targed o 2 ddiwrnod. Fel rhan o gyllideb y Cyngor ar gyfer 2021-22 cyhoeddwyd buddsoddiad pellach mewn timau ymateb i dipio anghyfreithlon, a fydd yn ein galluogi i wella'r perfformiad ymhellach.

Mae archwiliadau'r System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol o Lyswyry dros y 6 mis diwethaf yn dangos bod pob stryd wedi cyrraedd gradd A neu B+.

Person cyswllt: ,
Ffôn:
E-bost:Cabinet@newport.gov.uk
Dyddiad cyhoeddi: Date Not Specified